# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 5 Mawrth 2013**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Pleidleisiau a Thrafodion
(117)

**Datganiad y Llywydd**
Cyhoeddodd y Llywydd bod Cydsyniad Brenhinol wedi cael ei roi ar 4 Mawrth i Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013.

### 1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd y 12 cwestiwn cyntaf. Gwahoddodd y Llywydd arweinwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

### 2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dechreuodd yr eitem am 14.17

### 3. Datganiad gan y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth: Ardrethi Busnes

Dechreuodd yr eitem am 14.30

### 4. Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau: Ymgysylltu a Datblygiad Ieuenctid - Gohiriwyd tan 23 Ebrill

### 5. Dadl: Yr Ail Gyllideb Atodol 2012-13

Dechreuodd yr eitem am 14.53

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

**NDM5162 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod y Cynulliad, yn unol â Rheol Sefydlog 20.30, yn cymeradwyo'r Ail Gyllideb Atodol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2012-13 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ddydd Mawrth, 5 Chwefror 2013.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 36 | 12 | 0 | 48 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

**6. Dadl: Diwrnod Rhyngwladol y Menywod**

Dechreuodd yr eitem am 15.30

**NDM5174 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn dathlu Diwrnod Rhyngwladol y Menywod 2013 i gydnabod rôl a chyfraniad menywod yng Nghymru.

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

**Gwelliant 1 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod dewrder menywod sydd wedi cael eu cam-drin am roi gwybod am ddigwyddiadau ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i hyrwyddo strategaeth integredig ar gyfer mynd i'r afael â thrais domestig a rhywiol.

**Derbyniwyd gwelliant 1 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Gwelliant 2 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i archwilio dulliau o gynyddu nifer y menywod sydd mewn sefyllfa o bwer a dylanwad yng Nghymru.

**Derbyniwyd gwelliant 2 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:**

**NDM5174 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn dathlu Diwrnod Rhyngwladol y Menywod 2013 i gydnabod rôl a chyfraniad menywod yng Nghymru.

2. Yn cydnabod dewrder menywod sydd wedi cael eu cam-drin am roi gwybod am ddigwyddiadau ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i hyrwyddo strategaeth integredig ar gyfer mynd i'r afael â thrais domestig a rhywiol.

3.Yn galw ar Lywodraeth Cymru i archwilio dulliau o gynyddu nifer y menywod sydd mewn sefyllfa o bwer a dylanwad yng Nghymru.

**Derbyniwyd y cynnig fel y'i diwygiwyd yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

### 7. Dadl ar Ymateb Gweinidogion Cymru i argymhellion Comisiynydd y Gymraeg ar safonau iaith Gymraeg

Dechreuodd yr eitem am 16.40

**NNDM5176 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. yn nodi:

(a) bod y Gweinidog Addysg a Sgiliau wedi penderfynu peidio symud ymlaen gyda safonau arfaethedig Comisiynydd y Gymraeg mewn perthynas â'r Gymraeg;

(b) bod y Gweinidog nawr yn bwriadu adeiladu ar ymgynghoriad Comisiynydd y Gymraeg, i ddatblygu cyfres o safonau a fydd yn sefydlu hawliau i siaradwyr Cymraeg, o ran gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg; ac

(c) bod y Gweinidog yn bwriadu gwneud, gyda chymeradwyaeth y Cynulliad Cenedlaethol, rheoliadau yn gwneud y gyfres gyntaf o safonau, a gwneud y safonau hynny yn benodol gymwys i bersonau, erbyn diwedd 2014.

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

**Gwelliant 1 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu ein bod, dros ddwy flynedd ar ôl pasio Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, yn parhau i fod yn bell iawn o fabwysiadu cyfres ffurfiol o safonau ar gyfer gwasanaethau yn yr iaith Gymraeg.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 24 | 0 | 25 | 49 |

**Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Llywydd ei phleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant. Felly, gwrthodwyd y gwelliant.**

**Gwelliant 2 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi amserlen weithredu fanwl ar gyfer cyflwyno safonau iaith Gymraeg erbyn 2014.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 48 | 0 | 0 | 48 |

**Derbyniwyd gwelliant 2.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:**

**NNDM5176 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. yn nodi:

(a) bod y Gweinidog Addysg a Sgiliau wedi penderfynu peidio symud ymlaen gyda safonau arfaethedig Comisiynydd y Gymraeg mewn perthynas â'r Gymraeg;

(b) bod y Gweinidog nawr yn bwriadu adeiladu ar ymgynghoriad Comisiynydd y Gymraeg, i ddatblygu cyfres o safonau a fydd yn sefydlu hawliau i siaradwyr Cymraeg, o ran gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg; ac

(c) bod y Gweinidog yn bwriadu gwneud, gyda chymeradwyaeth y Cynulliad Cenedlaethol, rheoliadau yn gwneud y gyfres gyntaf o safonau, a gwneud y safonau hynny yn benodol gymwys i bersonau, erbyn diwedd 2014.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi amserlen weithredu fanwl ar gyfer cyflwyno safonau iaith Gymraeg erbyn 2014.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 48 | 0 | 0 | 48 |

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

**8. Dadl Cyfnod 3 ar y Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru) o dan Reol Sefydlog 26.44**

Dechreuodd yr eitem am 17.20

Yn unol â Rheol Sefydlog 26.36, mae'r gwelliannau i gael eu gwaredu yn y drefn y mae'r adrannau a'r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn codi yn y Bil.

Mae'r gwelliannau wedi cael eu grwpio at ddibenion y ddadl ac fe'u trafodir yn ôl y grwpiau a ganlyn:

**1. Technegol a chanlyniadol**
28, 29, 14, 26, 15A, 15, 16, 17, 18, 19, 20, 21, 22, 23, 24

**2. Cynllun dirprwyo**
2, 3

**3. Aelodau sy'n gyflogeion SAC**
4, 5, 6, 7, 25

**4. Cynllun blynyddol**
8, 9, 11

**5. Paratoi adroddiadau interim**
10, 12, 13

**6. Trosglwyddo staff i SAC**
1*, 1A*, 27
* Caiff y gwelliannau hyn eu gwaredu yn y drefn a ganlyn—1A, 1

**Cynhaliwydy pleidleisiau yn y drefn a nodir yn y Rhestr o Welliannau wedi'u Didoli:**

**Derbyniwyd gwelliant 28 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

Derbyniwyd gwelliant 29 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd gwelliant 2 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd gwelliant 3 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd gwelliant 4 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd gwelliant 5 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd gwelliant 6 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd gwelliant 7 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Ni chynigwyd gwelliant 25.

Derbyniwyd gwelliant 8 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd gwelliant 9 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd gwelliant 10 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd gwelliant 11 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd gwelliant 12 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd gwelliant 13 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd gwelliant 14 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd gwelliant 1A yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd gwelliant 1 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd gwelliant 27 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Ni chynigwyd gwelliant 26.

Ni chynigwyd gwelliant 15A.

Derbyniwyd gwelliant 15 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

**Derbyniwyd gwelliant 16 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Derbyniwyd gwelliant 17 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Derbyniwyd gwelliant 18 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Derbyniwyd gwelliant 19 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Derbyniwyd gwelliant 20 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Derbyniwyd gwelliant 21 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Derbyniwyd gwelliant 22 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Derbyniwyd gwelliant 23 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Derbyniwyd gwelliant 24 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Barnwyd bod holl adrannau ac atodlenni'r Bil wedi'u derbyn, gan ddod â thrafodion Cyfnod 3 i ben.**

### 9. Cynnig Cyfnod 4 o dan Reol Sefydlog 26.47 i gymeradwyo'r Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru)

Dechreuodd yr eitem am 17.50

Ar ddiwedd Cyfnod 3, caiff y Gweinidog gynnig bod y Bil yn cael ei basio yn unol â Rheol Sefydlog 26.47. Os cytunir ar y cynnig:

Cynnig Cyfnod 4 o dan Reol Sefydlog 26.47 i gymeradwyo'r Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru).

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

### Cyfnod Pleidleisio

Dechreuodd yr eitem am 17.56

Daeth y cyfarfod i ben am 18:06

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mercher, 6 Mawrth 2013**